

bwletin

gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 319 (Cymru) – 30 Mawrth 2022

Etholiadau Mai 2022: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Yn unol â'n dull ar gyfer darparu diweddariadau ynghylch newidiadau i enwau, disgrifiadau neu arwyddluniau pleidiau a nodwyd ym [Mwletin 316](#), isod ceir crynodeb o'r diweddariadau rydym wedi eu gwneud ers [Bwletin 318](#).

Fel y gwelwch, cafwyd nifer o newidiadau yn ddiweddar i'r gofrestr, ac er na fydd pob un yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n sefyll yn eich ardal, mae'n bwysig eich bod yn darllen y rhestr o ddiweddariadau i bleidiau yn ofalus i sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y rheiny sy'n sefyll yn eich ardal:

- [Plaid Cymru](#)
- [Y Blaid Werdd](#)
- [Plaid Y Gymuned](#)

Ni chafodd unrhyw bleidiau eu dadgofrestru ers y Bwletin diwethaf.

Gallwch weld manylion llawn y diwygiadau a wnaed yn ein [rhestr o benderfyniadau i gymeradwyo neu wrthod enwau, disgrifiadau neu arwyddluniau pleidiau y gwnaed cais amdanynt](#). Ar ein gwefan gallwch hefyd ddod o hyd i [restr o geisiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd](#).

Wrth dderbyn enwebiadau, rhaid i Swyddogion Canlyniadau wirio bod enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu, yn ogystal â'r arwyddlun y gwneir cais amdano, wedi eu cofrestru ar [gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol](#) a bod y manylion a ddarparwyd yn cyfateb i'r rheiny a gofrestrwyd. I sicrhau eich bod yn gweld y wybodaeth ddiweddaraf, efallai y bydd angen i chi ddileu eich hanes pori neu adnewyddu'r dudalen. Os nad ydych yn sicr sut mae gwneud hyn, dylai eich tîm TG allu eich cynorthwyo.

[Cysylltwch â ni](#) os oes gennych unrhyw ymholiadau am y wybodaeth sydd ar y cofrestrau.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiadau Mai 2022: diweddariad ynghylch enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Diweddariad ynghylch newidiadau diweddar i'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol.

Etholiadau mis Mai 2022: casglu data wedi'r etholiadau

Gwybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer casglu data ac adborth yn dilyn etholiadau Mai 2022.

Deddf Diddymu a Galw'r Senedd: diweddariad

Gwybodaeth am y Ddeddf Diddymu a Galw'r Senedd.

Swyddi ar gael yn y Comisiwn Etholiadol

Gwybodaeth am ddwy swydd a sut i wneud cais.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [fan hyn](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

[Rhowch wybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng

Nghymru drwy e-bostio
gwybodaeth@comisiwnetholiado
l.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddat-danysgrifio](#) unrhyw bryd.

Etholiadau mis Mai 2022: casglu data wedi'r etholiadau

Bydd y Comisiwn yn adrodd ar etholiadau Mai 2022 ac, fel erioed, bydd adborth a data gan Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth lwyio'r adroddiadau hyn.

Rydym wedi crynhoi ein cynlluniau isod, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth gynnar ar sut a phryd y byddwn yn gofyn am eich help.

Casglu data ar ôl yr etholiad

Mae'r data rydym yn mynd i'w gasglu i'w weld [yma](#). Mae'r ffeil yn cynnwys yr holl etholiadau a allai gael eu cynnal yng Nghymru, felly edrychwch ar y golofn(au) priodol ar gyfer yr etholiad(au) sydd gennych ym mis Mai 2022.

Unwaith eto byddwn yn casglu'r data trwy ein porth data ôl-etholiad.

Byddwch yn derbyn e-bost (a anfonir i gyfeiriad e-bost cyffredinol eich awdurdod lleol) yn fuan ar ôl yr etholiad yn esbonio sut i gael mynediad i'r porth data ac yn caniatáu ichi lenwi'r data pan fydd yn gyfleus i chi. Bydd eich cyfrineiriau blaenorol wedi dod i ben felly bydd angen i chi ailosod y cyfrineiriau ar eich cyfrif. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau data fydd dydd Gwener 10 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

Arolwg staff gorsaf bleidleisio

Rydym yn cynnal arolwg o staff gorsafoedd pleidleisio ledled y DU i gasglu adborth am eu profiadau ar ddiwrnod pleidleisio. Bydd llawlyfr yr orsaf bleidleisio (copi caled a digidol) yn cynnwys cod QR y gall staff ddefnyddio ffôn clyfar i'w sganio i gyrchu yr arolwg. Bydd y ddolen i'r arolwg yn mynd yn fyw brynhawn y diwrnod pleidleisio.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i dynnu sylw staff eich gorsaf bleidleisio at yr arolwg, er enghraifft trwy eich hyfforddiant arfaethedig. Fel arall, yn yr wythnos ar ôl y diwrnod pleidleisio byddwn yn darparu dolen i'r arolwg ar-lein, y gallech chi wedyn ei he-bostio at staff gorsafoedd pleidleisio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr arolwg hwn, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

Arolwg ymgeiswyr

Rydym hefyd yn cynnal arolwg o ymgeiswyr a safodd etholiad ym mis Mai 2022, gan ofyn am eu profiadau o'r enwebiadau hyd at y cyfrif.

Ar 10 Mawrth, gwnaethom ysgrifennu at bob Swyddog Canlyniadau yng Nghymru i ofyn am gymorth i rannu'r arolwg ag ymgeiswyr yn eich ardal lle mae gennych gyfeiriad e-bost ar eu cyfer.

Bydd yr arolwg ar gael i'w lenwi o ddydd Gwener 6 Mai ac yn ddelfrydol hoffem gael gwahoddiadau i fynd allan cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad. Rydym yn bwriadu sicrhau bod dolen yr arolwg a'r testun esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar gael erbyn canol

mis Ebrill, edrychwch am e-bost gan y tîm yng Nghymru ynglŷn â hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr arolwg hwn, cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

Adborth gweinyddu etholiadol

Hoffem eich adborth hefyd. Bydd hyn nid yn unig yn llywio ein hadroddiadau wedi'r etholiad, ond bydd hefyd yn ein helpu i wella'r modd yr ydym yn eich cefnogi i gyflawni etholiadau llwyddiannus yn y dyfodol.

Bydd dolen i'r arolwg yn mynd yn fyw ddydd Gwener 6 Mai, a'r dyddiad cau ar gyfer ei gwblhau fydd dydd Gwener 13 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr arolwg adborth, cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

Deddf Diddymu a Galw'r Senedd: diweddariad

Derbyniodd y Ddeddf Diddymu a Galw'r Senedd (*The Dissolution and Calling of Parliament Act*) Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth.

Mae hyn yn diddymu'r Ddeddf Seneddau Tymor Penodol, gan ailsefydlu'r broses cyn 2011 lle mae'r Prif Weinidog yn gofyn am ddiddymiad oddi wrth y Sofran a fydd, os caniateir, yn galluogi'r Prif Weinidog i alw etholiad cyffredinol ar adeg o'u dewis. Nid yw etholiad cyffredinol nesaf Senedd y DU (UKPGE) bellach wedi'i drefnu i gael ei gynnal ym mis Mai 2024, ond rhaid ei gynnal erbyn 28 Ionawr 2025.

Mae pob cyfeiriad at y broses ar gyfer galw etholiad cyffredinol yn ein canllawiau craidd ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU wedi'u diweddarau'n unol â hynny.

Swyddi ar gael yn y Comisiwn Etholiadol

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio ar gyfer y swyddi canlynol:

- Swyddog Canllawiau (Canllawiau Etholiadol) – FTC tan fis Mai 2024
- Uwch Gynghorydd – Safonau Perfformiad (Bil Etholiadau) – FTC tan fis Mai 2024

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer rôl y Swyddog Canllawiau (Canllaw Etholiadol) yw Dydd Sul 3 Ebrill. Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Mark Pascoe, Rheolwr Canllawiau Cofrestru Etholiadol ar 020 7271 0690.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer rôl yr Uwch Gynghorydd – Safonau Perfformiad (Mesur Etholiadau) yw dydd Mawrth 12 Ebrill. Os hoffech drafodaeth anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Mel Davidson, Pennaeth Cymorth a Gwelliant ar 020 7271 0552.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth neu os hoffech wneud cais, ewch i [dudalen recriwtio](#) ein gwefan.

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.electoralcommission.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2022